**Llawdrin Esgyrn y Trwyn**

**Cyngor i Achosion Dydd wrth iddynt Adael yr Ysbyty**

**Cyngor i Achosion Dydd wrth Adael yr Ysbyty wedi Llawdrin Esgyrn y Trwyn**

Gan eich bod wedi cael anesthetig cyffredinol heddiw dylech fwyta bwyd ysgafn ac osgoi diodydd pigog am y diwrnod fel nad ewch yn sâl. Dylech fynd adref yn syth o'r ysbyty ac ymlacio heddiw ac yfory.

**Gweithgareddau dyddiol:**

Peidiwch ag ymarfer na defnyddio peiriannau trwm am wythnos yn dilyn y llawdriniaeth. Fe'ch cynghorir hefyd i gadw draw o leoedd myglyd a lleoedd prysur fel nad ydych yn dal haint. Peidiwch â chael diodydd, prydau, bath na chawod boeth sy'n stemio, a hynny am wythnos, fel nad ydych yn cael gwaedlyn. Fe'ch cynghorir hefyd i beidio â chwythu'ch trwyn, ac i disian gyda'ch ceg yn agored yn ystod y cyfnod hwn, am yr un rheswm. Peidiwch â chymryd rhan mewn chwaraeon cyswllt am o leiaf bedair wythnos ar ôl y llawdriniaeth fel na cheir rhagor o drawma, anffurfio gwaeth a gwaedu.

**Poen:**

Mae'n arferol cael poen hyd at 48 awr ar ôl y llawdriniaeth. Dylai tabledi lladd poen syml, megis paracetamol, fod yn ddigon am y cyfnod hwn.

**Y Clwyf:**

Efallai y bydd llif gwaedlyd a dyfriog yn dod o'ch trwyn. At hyn, bydd eich trwyn yn teimlo fel pe bai wedi cau oherwydd y chwyddo yn sgil y llawdriniaeth. Efallai y bydd gennych hefyd ryw gymaint o chwydd a chleisiau ar y tu allan i'r trwyn. Mae hyn yn rhan arferol o'r broses iacháu a gallai barhau am bedair wythnos wedi'r llawdriniaeth. Os bydd gwaedu, gwasgwch flaen cnawdol eich trwyn, pwyso ymlaen a rhoi iâ ar eich trwyn. Os na fydd y gwaedu'n peidio ar ôl 30 munud, ewch i'ch adran damweiniau ac achosion brys agosaf.

**Camau dilynol:**

Fel arfer, ni fydd gofyn mynd i'r clinig wedi'ch llawdriniaeth, oni bai fod eich llawfeddyg wedi dweud fel arall wrthych. Os oes gennych ragor o bryderon, ewch i weld eich meddyg teulu am gyngor.

**GWYBODAETH AM ADAEL YR ADRAN DAMWEINIAU AC ACHOSION BRYS**

**Cyn 18:00:**

Cysylltwch â'r Uned Llawdriniaeth Ddydd ar 01633 234199 / 01633 234196

**Ar ôl 18:00/dros nos**:

Ward C0 01633 493926

Ward C1 (**plant): 01633 493609**

**Pe ceid argyfwng, ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English"**